

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	27 Chwefror 2020
Pwnc:	<u>Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol</u> : fframwaith ansawdd chweched dosbarth 2017-2020 llyfrgelloedd Cymru: Adroddiad Blynyddol 2018/2019.
Pwrpas yr Adroddiad:	•Adrodd ar asesiad (MALD) Adroddiad Blynyddol Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru o'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd 2018/19, a'r materion sy'n codi. •Adnabod cryfderau a gwendidau perthynol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth fel yr adnabuwyd yn adroddiad blynyddol drafft 2018/2019.
Cadeirydd Sgriwtini:	Cllr Aled Morris Jones
Aelod(au) Portfolio:	Cllr R Meirion Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Rhys H. Hughes
Awdur yr Adroddiad:	Rachel Rowlands : Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgell
Rhif Ffôn:	01248 752094
E-bost:	rflxh@ynysmon.gov.uk
Aelodau lleol:	

1 – Argymhelliad/ion

- Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn awgrymu bod yr Aelod Portfolio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19
- Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn nodi asesiad (MALD) Llywodraeth Cymru o Adroddiad Llyfrgelloedd Blynyddol y Gwasanaethau Llyfrgell 2018/19, a'r materion sy'n codi.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-

3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

5 – Cefndir / Cyd-destun

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Ebrill 2018 - Mawrth 2019 Adroddiad Rheolwr y Gwasanaeth Llyfrgell

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) drwy ei hadran bolisi MALD (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

1.2. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn ystod 2018/19 ac mae wedi ei gyflwyno i MALD ar ffurf drafft oherwydd yr amserlen asesu. **Mae'r Adroddiad Blynyddol yn atodedig fel atodiad 1.**

1.3. Mae'r Asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda ac yn cyrraedd 11 hawl craidd yn llawn ac yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol. O'r deg dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol a methodd â chyflawni 2. Gostyngiad ar y flwyddyn adrodd flaenorol, fodd bynnag, mae newid yn y broses adrodd / asesu gan MALD wedi arwain at y newid hwn nid gostyngiad mewn perfformiad. **Atodir yr asesiad fel Atodiad 2.**

1.4. Caiff perfformiad ei gynnal yn fras yn y flwyddyn hon o'r chweched fframwaith, gyda gwelliannau mewn rhai meysydd a gostyngiadau mewn eraill. Rydym yn cadw ffocws cryf ar wasanaethau plant a chefnogaeth i'r Gymraeg, ac yn dangos ethos partneriaeth ddefnyddiol, gan weithio gyda gwasanaethau eraill yng Ngogledd Cymru a darparwyr lleol.

2. GWYBODAETH GEFNDIROL

2.1. Cyflwynwyd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC/ WAG) yn Ebrill 2002 i ddynodi lefelau lleiafysmiol darpariaeth llyfrgell a bwriedir hwy i ddarparu mesuriadau perfformiad cymharol i arwain gwelliannau gwasanaeth. Mae Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol “ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyfansawdd ac effeithlon i bob un sy’n dymuno gwneud defnydd ohono”. Gan nad yw’r termau “cyfansawdd ac effeithlon” wedi eu diffinio yn y Ddeddf, cyflwynodd LICC y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus i ddiffinio lefelau gwasanaeth a chynorthwyo’r Gweinidog perthnasol “i oruchwylio, a hybu gwella’r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus”.

2.2. Yn 2017 bydd awdurdodau lleol yn dechrau cofnodi eu perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn y fframwaith newydd "Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: fframwaith ansawdd chweched dosbarth 2017-2020 llyfrgelloedd Cymru". Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac wedi'i seilio'n sylweddol ar y 5ed fframwaith. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar lyfrgelloedd cymunedol sydd ar gael mewn dogfen ar wahân hefyd.

Buddion y fframwaith

Mae'r fframwaith yn ceisio annog awdurdodau lleol i sicrhau y gall y cyhoedd fanteisio ar:

- fynediad addas a phriodol i fannau lle cynigir gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus
- ystod addas a phriodol o ddefnyddiau a gweithgareddau ar gael
- mynediad at lefelau addas o staffio a gweithlu medrus
- buddsoddiad cyfalaf digonol mewn adeiladau, technolegau gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol a systemau rheoli effeithlon i'w gwasanaeth llyfrgell.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD 2018 - 2019 : Crynodeb o adroddiad

3.1. MEYSYDD O GRYFDER

3.1.1. Mae Ynys Môn bellach yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac un yn rhannol. Er bod Strategaeth i'r Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017-2022 ar waith, nid yw ar gael ar-lein yn hawdd i'r cyhoedd ac o ganlyniad, dim ond yn rhannol y cyflawnir HE12; unwaith y bydd y strategaeth ar gael drwy dudalennau gwe'r gwasanaeth llyfrgell caiff yr hawl hon ei chyflawni'n llawn.

3.1.2. Erbyn hyn, gall pob llyfrgell ddarparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ystod estynedig o wasanaethau ieuchyd a lles. gwelliant ar 17/18

3.1.3. Mae Ynys Môn wedi ehangu ei raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn 2018/19, er gwaethaf cyfyngiadau o hyd ar gapasiti staff

- 3.1.4. Mae cyllidebau prynu adnoddau wedi parhau ar yr un lefelau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda o ran gwariant ar lyfrau plant, a chefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg.
- 3.1.5. Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2017/18, gyda gwariant y pen o'r boblogaeth uwchlaw'r lefel ganolrifol.
- 3.1.6. 92% o'i phoblogaeth yn byw o fewn cyrraedd rhwydd i fan gwasanaeth
- 3.1.7. Mae benthyciadau Gymraeg fesul pen ymhlith yr uchaf yng Nghymru.
- 3.1.8. Mae Ynys Môn yn ail o ran defnyddio cyfleusterau TGCh mynediad cyhoeddus.

3.2. MEYSYDD O WENDID

- 3.2.1. Y lefel presenoldeb mewn hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw yw'r isaf yng Nghymru, fodd bynnag, mae hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu ac mae wedi ei leoli yn 6/22.
- 3.2.2. Mae nifer yr ymwelwyr wedi parhau i leihau, a hefyd nifer y llyfrau a fenthycir, a hynny'n rhannol oherwydd llai o ddefnydd o'r llyfrgell deithiol; disgwylir gwelliannau wrth i'r ddarpariaeth deithiol newydd gael ei hymgorffori.
- 3.2.3. Nid yw Ynys Môn wedi cyflawni'r targedau ar gyfer nifer y staff cyffredinol na'r staff proffesiynol, gyda chanlyniadau ar gyfer gallu gwasanaeth.
- 3.2.4. Mae nifer ymwelwyr wedi gostwng ychydig ond rydym yn uwch na chanolrif Cymru a 12/22 yn y drefn restrol. Mae ymweliadau rhithwir yn uchel 2/22.
- 3.2.5. Dim ond mewn 7 allan o 8 o lyfrgelloedd y darperir digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig, gyda darpariaeth wedi'i dargedu i ble mae galw neu angen a nodwyd. mae hyn yn welliant ar 17/18.

4. ASESAD MALD (Gweler : Atodiad 2)

- 4.1. Mae'r Asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda ac yn cyrraedd 11 hawl craidd yn llawn ac yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol. O'r deg dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol a methodd â chyflawni 2. Gostyngiad ar y flwyddyn adrodd flaenorol, fodd bynnag, mae newid yn y broses adrodd / asesu gan MALD wedi arwain at y newid hwn nid gostyngiad mewn perfformiad.
- 4.2. Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol; Mae sylwadau Mald wedi'u crynhoi isod:

4.2.1. Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Gellir gweld effaith y newidiadau wedi'u cynllunio i seilwaith y gwasanaeth yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad unigol, yn sgil cau dau fan gwasanaeth sydd wedi ei gwneud yn bosibl i staff ac adnoddau gael eu hailddosbarthu; o ganlyniad cynigir yr ystod lawn o sesiynau sgiliau ym mhob llyfrgell bellach, ac mae DA 1 yn cael ei gyflawni'n llawn. Mae'r ymarfer aillstrwythuro hefyd wedi galluogi'r gwasanaeth i ymestyn ei ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gyda phob man gwasanaeth bellach yn cynnig gwasanaethau deall dementia. Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi parhau i

gynyddu, ond mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw yn dal ar y lefel isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Erys y galw am gymorth anffurfiol i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, yn arbennig o uchel.

4.2.2. Mynediad a Defnydd (QI 6-8)

Mae newidiadau i seilwaith y gwasanaeth yn 2018/19 wedi arwain at ostyngiad bach yng nghanran yr aelwydydd sydd o fewn pellter hygyrch i fan gwasanaeth llyfrgell, ond parheir i gyflawni'r targed. Mae Ynys Môn wedi ehangu ei raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn 2018/19, er gwaethaf cyfyngiadau o hyd ar gapasiti staff; mae'r niferoedd sy'n mynychu wedi cynyddu o ganlyniad. Mae'r ddarpariaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig hefyd wedi gwella, gyda darpariaeth wedi'i thargedu mewn 7 allan o'r 8 llyfrgell, ond mae'r gwasanaeth yn dal i fethu â chyrhaedd y safon o ran hyn (DA 6). Mae nifer yr ymwelwyr wedi parhau i leihau, a hefyd nifer y llyfrau a fenthycir; priodolir hyn yn bennaf i leihad yn nifer yr ymweliadau gan y llyfrgell deithiol, ac mae'r gwasanaeth yn disgwyl gwrthdroi'r duedd hon yn 2019/20 pan fydd ei lyfrgell deithiol newydd, a'i hamserlen a'i hymgyrch farchnata yn ymsefydlu. Mae nifer y lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu ymhellach, tuedd a welir ledled Cymru ac mae aelodaeth llyfrgell hefyd wedi cynyddu, ond erys perfformiad y pen o'r boblogaeth o ran hyn yn isel iawn o hyd.

4.2.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (CI 9-12)

Parhaodd cyllideb deunyddiau Ynys Môn ar lefelau 2017/18, ond oherwydd newid i'r ffordd yr asesir eitemau a gaffaelwyd y pen o'r boblogaeth (DA 9) nid yw'r targed o ran hyn yn cael ei gyflawni mwyach. Erys gwariant ar adnoddau i blant yn gadarn o hyd, ac mae'r gwasanaeth wedi cynyddu ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, yn unol â'r galw lleol, gyda nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir yn parhau'n uchel. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi parhau ar yr un lefel, ac er bod y defnydd a wneir ohonynt wedi lleihau (i 57% o 67%), mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth uwch mewn rhai llyfrgelloedd yn sgil aildδοςbarthu cyfarpar o safleoedd sydd wedi cau, gyda'r defnydd yn dal ymhlith yr uchaf oll yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, gan nodi ffigurau ar gyfer ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn yr awdurdod.

4.2.4. Arbenigedd a gallu (CI 13-16)

Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith yn 2018/19, ond mae nifer o swyddi o fewn y strwythur hwn yn dal yn wag (gan gynnwys un swydd broffesiynol), ac fel y cyfryw mae Ynys Môn yn nodi gostyngiad bach mewn lefelau staffio cyffredinol ac nid yw'r naill darged staffio na'r llall yn cael eu cyflawni. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi ac y dylai'r swyddi gael eu llenwi yn 2019/20, ac yn rhagweld y dylai hyn alluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r targed ar gyfer nifer y staff proffesiynol, ond na fydd modd cyflawni'r gofyniad ar gyfer staffio cyffredinol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol. Mae cyfanswm yr oriau agor blyneddol wedi lleihau, ar ôl cau dau fan gwasanaeth, ond mae'r gofynion o ran hyn yn parhau i gael eu bodloni, ac nid oedd unrhyw achosion o darfu ar wasanaethau heb eu cynllunio.

4.3. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad: Gwelwyd rhai newidiadau yn lefelau perfformiad gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn yn 2018/19, wrth i'w broses drawsnewid gael ei chwblhau, gan ailffurfio'r seilwaith sy'n sail i'r gwasanaeth. Caewyd dau o'i bwyntiau gwasanaeth llyfrgell lleiaf, gan ei gwneud yn bosibl i ailddosbarthu'r staff a'r adnoddau, ac mae strwythur staffio newydd ar waith a ddylai sicrhau mwy o gapasiti ar ôl i'r broses recriwtio gael ei chwblhau. Serch hyn, mae'r staff wedi cyflawni arlwy estynedig o hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau yn 2017/18 er bod y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol eraill o ddefnydd llyfrgelloedd wedi parhau i ostwng. Rhagwelir gwelliannau wrth i'r gwaith marchnata, yr amserlen a'r llyfrgell symudol newydd ennill eu plwyf. O ganlyniad, dylai datganiad yr awdurdod ar gyfer 2019/20 ddarparu darlun cliriach o'r ffordd y mae rhoi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-22 ar waith, ynghyd â newidiadau diweddar i ganghennau, yn effeithio ar berfformiad o dan y fframwaith.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Ang

7 – Oblygiadau Ariannol

Ang

8 – Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Ynys Môn 2018/19

Atodiad 2: Adroddiad Asesu Blynyddol 2018-19: Ynys Môn.

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

MALD : Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: fframwaith ansawdd chweched dosbarth 2017-2020 llyfrgelloedd Cymru

<https://gov.wales/docs/drah/publications/170331-connected-and-ambitious-libraries-cy.pdf>

--



Chweched fframwaith ansawdd ar gyfer
llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru

Ebrill 2017 hyd at Fawrth 2020

Ffurflen profforma blynyddol: Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

Nodiadau canllaw

Mae'r ffurflen i'w llenwi ar dair taflen waith, ynghyd â dogfen Word. Dylai awdurdodau nodi'r canlynol:

Mae'r ddogfen Diffiniadau a chanllawiau ar gyfer casglu data a'i gyflwyno yn rhoi arweiniad ar lenwi'r ffurflen.

Pan fo data wedi'i gynnwys yn y ffurflen flynyddol i CIPFA, dylid defnyddio'r un ffigwr ar gyfer y ffurflen hon.

Y celloedd hynny sydd angen data yw'r unig rai y gellir eu dewis; mae'r rhannau eraill yn lled-dywyll. Gellir defnyddio'r fysell tab i symud ymlaen i'r gell nesaf sydd ar gael.

Mae MALD yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth o'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen flynyddol i gynorthwyo gyda'r broses asesu.

Cyd-destun

Mae'r daflen hon yn gofyn am ychydig o fanylion disgrifiadol am yr awdurdod, ynghyd â manylion cysylltu â'r person y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ato/ati.

Hawliau Craidd

Mae'r daflen hon yn ymdrin â hawliau craidd y cyhoedd. Mae cwymplen i'r awdurdodau ddewis eu lefel cydymffurfio â phob hawl (wedi'i hunanasesu), a dylid rhoi unrhyw wybodaeth bellach yn y gofod a ddarparwyd yn ôl yr angen.

Dangosyddion Ansawdd

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 12 o ddangosyddion ansawdd safonau llyfrgelloedd cyhoeddus. O ran rhai dangosyddion, mae'n rhaid i awdurdodau gofnodi'r data craidd y mae'r safonau meintiol yn deillio ohono; bydd y cyfrifo wedyn yn digwydd yn awtomatig.

O ran y safonau hynny sydd â thargedau meintiol, caiff atebion eu cymharu â'r targed a osodwyd, a rhoddir rhyw awgrym a yw'r safon honno wedi'i chyrraedd ai peidio. Mae gofod wedi'i adael i chi roi sylwadau; anogir awdurdodau sy'n methu â chyrraedd y targedau i ddefnyddio'r gofod hwn i nodi unrhyw amgylchiadau lliniarol, a chynlluniau ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Dylid rhoi ffigwr cymaradwy ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018 ar gyfer pob Dangosydd Ansawdd a adroddir yn flynyddol. Mae gofod wedi'i ddarparu i awdurdodau roi sylwadau ar unrhyw ddirywiad yn eu perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Dylid rhoi'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael o ran y Dangosyddion Ansawdd hynny sydd ond eu hangen unwaith bob tair blynedd, a dylid rhoi dyddiad casglu'r data yn y gofod a roddwyd.

Cyflwyno

Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylid ei dychwelyd drwy e-bost i
MALD:

mald@llyw.cymru

Dyddiad olaf derbyn ffurflenni:

Dydd Gwener 21 Mehefin 2019

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Carys Dawson

Carys.Dawson2@llyw.cymru

0300 062 2095 (llinell uniongyrchol)

0300 062 2112 (prif rif MALD)

Data cyd-destunol		Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019	
Awdurdod		Ynys Môn	
Nifer trigolion		69,794	
Canran y boblogaeth o dan 16 oed		17.2%	
Canran y boblogaeth sy'n gallu darllen a siarad Cymraeg (gweler y nodiadau)		57.2%	
Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor 10+ awr yr wythnos		8	
Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am lai na 10+ awr yr wythnos		0	
Nifer y llyfrgelloedd teithiol		1	
Yn ychwanegol, llyfrgelloedd cymunedol sydd ar agor 10+ awr yr wythnos			
<i>Nifer y llyfrgelloedd wedi'u rheoli gan y gymuned</i>		0	
<i>Nifer y llyfrgelloedd wedi'u cefnogi gan y gymuned</i>		3	
<i>Nifer y llyfrgelloedd wedi'u comisiynu</i>		0	
Yn ychwanegol, llyfrgelloedd cymunedol sydd ar agor am lai na 10 awr yr wythnos			
<i>Nifer y llyfrgelloedd wedi'u rheoli gan y gymuned</i>		0	
<i>Nifer y llyfrgelloedd wedi'u cefnogi gan y gymuned</i>		0	
<i>Nifer y llyfrgelloedd wedi'u comisiynu</i>		0	
Faint o'r llyfrgelloedd cymunedol hyn, os oes rhai o gwbl, sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen hon (gweler y nodiadau)?		3	
Nifer y Llyfrgelloedd Cymunedol Annibynnol		0	
<u>Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch y ffurflen hon</u>			
Enw		Rachel Rowlands	
Rhif ffôn		01248 752094	
E-bost		rfxlh@ynysmon.gov.uk	
A yw'r Ffurflen Datganiad Blyneddol hon wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod cyn ei chyflwyno i MALD?		No	
Pryd a ddisgwylir cymeradwyaeth?		Yn hwyr yn Nhymor yr Hydref 2019	
Pryd fydd y fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i MALD?		Yn hwyr yn Nhymor yr Hydref 2019	

DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth		2018-19	Fframwaith 5
Canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b		67%
Canran yr oedolion sydd wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch iechyd a lles yn y llyfrgell	dd/b		51%
Canran yr oedolion sydd yn teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld â hi	dd/b		97%
Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau	dd/b		84%
Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)		dd/b	Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn) Feb-17
Sylw'r Awdurdod:			
Cynhelir yr arolwg yn 2019/20			

Canran y plant 7-16 oed sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau	dd/b		90%
Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)			Feb-17
Sylw'r Awdurdod:			
Cynhelir yr arolwg yn 2019/20			

DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid		2018-19	Fframwaith 5
Canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau yn 'dda iawn' neu'n 'dda'	dd/b		94%
Canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu'n 'dda'	dd/b		99%
Canran yr oedolion sy'n credu bod y cyfleusterau TG yn 'dda iawn' neu'n 'dda'	dd/b		dd/b
Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol	dd/b		97%
Dyddiadau'r arolwg (mis a blwyddyn)		dd/b	Feb-17
Sylw'r Awdurdod:			
Cynhelir yr arolwg yn 2019/20			

Sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 7-16 oed i'r llyfrgell maent yn eu defnyddio	dd/b		9%	
Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)	dd/b		Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)	Feb-17
Sylw'r Awdurdod:				
Cynhelir yr arolwg yn 2019/20				

DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol		2018-19	% y cyfanswm	2017-18 % y cyfanswm
Nifer o fannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr a mwy sy'n darparu:				
Cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith diwifr) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael.	8		73%	100%
Hyfforddiant i wella llythrennedd, llythrennedd gwybodaeth, rhifedd a sgiliau digidol.	8		73%	78%
Cymorth i ddefnyddwyr i gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol.	8		73%	100%
Rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant	8		73%	100%
Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:				

Mae perfformiad wedi gwella yn y maes hwn gyda'r holl dargedau bellach yn cael eu cwrdd 100%. Mae hyn yn rhannol oherwydd 2 o'n llyfrgelloedd lleiaf yn cau yn ystod 2018 o ganlyniad i'n Proses Trawsnewid. Mae'r strwythur newydd wedi ein galluogi i atgyfnerthu staffio ac adnoddau a'u dosbarthu'n fwy effeithiol i'r llyfrgelloedd sydd ar ôl.

DASLICC 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles	2018-19	% y cyfanswm	2017-18 % y cyfanswm
Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sydd yn cynnig:			
Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	8	73%	100%
Cynllun Llyfrau Llesol	8	73%	100%
Casgliad penodol ar iechyd a lles	8	73%	100%
Gwybodaeth am ffyrdd o fyw iachach ac ymddygiad iach – taflenni, llyfrau ac ati	8	73%	100%
Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles	8	73%	100%
Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:			

Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sydd yn cynnig:		2017-18
Grwpiau Darllen ar y Cyd (darllen yn uchel gyda'i gilydd)	2	1
Clybiau llyfrau (trafod llyfr penodol)	4	4
Canser Macmillan neu bartneriaethau eraill yn ymwneud â gwybodaeth iechyd	6	6
Hyrwyddwyr a gwasanaethau Dementia Gyfeillgar	8	4
Gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl	8	9
Sylw'r Awdurdod:		
Lleihaodd y nifer o lyfrgelloedd sy'n agored am 10 awr neu fwy yr wythnos yn ystod 2018 o 9 i 8. Mae gwaith ym maes Pencampwyr a Gwasanaethau Dementia Gyfeillgar wedi gwella perfformiad yn y maes hwn gyda phob pwynt gwasanaeth yn darparu'r elfen hon. Mae gwybodaeth iechyd ar gael ym mhob llyfrgell ac mae Gwasanaethau yn ymweld â phob llyfrgell ar ryw bwynt yn ystod y flwyddyn ar gyfer gweithgareddau amrywiol. Fodd bynnag, rydym ond wedi cynnwys yma'r Gwasanaethau sy'n cael eu haildrodd yn unol â'r canllawiau.		

DASLICC 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr	2018-19	Fesul 1,000 o'r boblgth	2017-18
Cyfanswm y nifer yn mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi'u trefnu ymlaen llaw gan y llyfrgell	936	13	Fesul 1,000 o'r boblgth 10
Canran y mynychwyr a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion	99%		% 98%
Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffigwr hwn			
Brasamcan o nifer y ffurflenni adborth a ddosbarthwyd	100		
Nifer y ffurflenni adborth sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad hwn	92		
Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn	21,365	306	
Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys nodyn ar y dull i'w ddefnyddio i gyfrifo'r canlyniadau):			

Mae sesiynau hyfforddi defnyddwyr sydd wedi eu trefnu o flaen llaw wedi cynyddu ychydig ers y cyfnod adrodd blaenorol gydag ymweliadau gan golegau lleol yn cael eu cynnwys y flwyddyn hon. Mae sesiynau anffurfiol dal yn uchel, mae cymorth yn amrywiol ac yn eang, fodd bynnag, mae cymorth gydag e-byst, defnyddio adnoddau, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, defnyddio WiFi yn cyfrif am gyfran uchel o'r ffigwr hwn . Mae sgiliau llythrennedd gwybodaeth ac adnoddau hanes lleol hefyd yn bwysig gyda galw yn cynyddu yn y maes hwn. Mae'r galw am gymorth anffurfiol yn cynyddu o ran cymorth i gwblhau ffurflenni ar-lein, sganio dogfennau a chwilio am swyddi. Dilynir gweithdrefnau samplu CIPFA gyda chyfrif yn Hydref o'r % a ddywedodd bod hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau. Cyfrifau llawn yw'r ffigyrau eraill.

DASLICC 6 Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell	2018-19	Fesul 1,000 o'r boblgth	2017-18
Cyfanswm y nifer yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell	15,465	222	Fesul 1,000 o'r boblgth 188
Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sydd yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau i'r rheiny â gofynion arbennig	7	64%	
Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:			

Sylw'r Awdurdod, yn cynnwys manylion o ddigwyddiadau:

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn er enghraifft Clybiau Lego, Clybiau Cod, Clybiau Swyddi Wythnosol, grwpiau darllen gwrando, ymweliadau gan awduron, cyhoeddiadau llyfr, grwpiau darllen, Rhannu Rhigwm, sesiynau rhieni a phlant, gweithgareddau i blant, gweithgareddau cynllun darllen dros yr haf. Mae'r nifer o weithgareddau wedi cynyddu'r flwyddyn hon, sy'n gyflawniad i'n staff o ran gweithredu'r strategaeth gwasanaeth llyfrgell ac mae swydd broffesiynol wag yn cyfyngu capasiti.

Mae digwyddiadau a gweithgareddau penodol wedi'u darparu i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig lle mae galw neu angen wedi'i adnabod, mae adnoddau yn y maes hwn wedi eu targedu a'u darparu mewn 7 allan o 8 llyfrgell (cynnydd ers y cyfnod adrodd blaenorol). Cynhaliwyd digwyddiadau amser stori / gweithgareddau i Ganolfan Addysg y Bont (disgyblion ag anghenion arbennig), Llythrennedd Gwybodaeth i ABE (Sgiliau Sylfaenol), Sesiynau Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, grwpiau darllen gwrando, gweithgareddau e.e. clybiau swyddi i'r rhai sy'n hirdymor ddi-waith. Sesiynau gwybodaeth a chyingor mewn partneriaeth â Chymdeithas Byddar Gogledd Cymru a Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

DASLICC 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	2018-19	2017-18
Dwysedd y boblogaeth (person yr hectar)	1.0	
% yr aelwydydd o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol	92%	%97%
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.		

Mae 63.94% o boblogaeth Môn yn byw o fewn 3 milltir i lyfrgell statig. Deillir y ffigwr hwn o'r system GIS ac mae'n gadarn ystadegol. Cyfrifir y ffigwr hwn drwy ddefnyddio'r pellter gyda rhwydwaith ffyrdd. 28.31% o gartrefi o fewn .25 o stop symudol. Mae mymryn o leihad wedi bod ers 17/18, fodd bynnag, sicrhodd y broses Drawsnewid ein bod yn parhau i gyrraedd y targed hwn.

DASLICC 8 Defnyddio'r llyfrgell	2018-19	Fesul 1,000 o'r boblgth	2017-18 Fesul 1,000 o'r boblgth
Cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn	275,423	3946	4,107
Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo hwn	Cyfuniad o'r dulliau hyn		
Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn	119,232	1,708	1,728
Cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn	7,498	107	110
Cyfanswm y nifer sy'n aelodau o'r llyfrgell	15,474	222	190
Cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd gan oedolion	161,416	2,313	2,429
Cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd gan blant	74,937	1,074	1,138
Cyfanswm nifer y deunydd clyweledol a fenthycwyd	7,416	106	104
Cyfanswm nifer y deunydd electronig a lawrlwythwyd	18,249	261	190
Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys enwau unrhyw fannau gwasanaeth a rennir ac sy'n rhannu dulliau cyfrif, a dyddiad y glanhau diwethaf ar ddata aelodaeth; dylech ddarparu nodyn o unrhyw ystadegau a gasglwyd ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol hefyd, a sut mae'r data hwn yn cael ei gyfri.):			
Mae ymweliadau i adeiladau llyfrgell wedi gostwng ychydig yn y cyfnod adrodd hwn. Wrth ddadansoddi lefelau llyfrgell, mae ein llyfrgelloedd mwy wedi cynnal niferoedd yr ymwelwyr. Mae'r llyfrgell symudol wedi gweld lleihad yn y nifer o ymweliadau, fodd bynnag, rydym yn disgwyl gwrthdroad yn hyn wrth i'n llyfrgell symudol, amserlen a'n marchnata newydd wreiddio.			
Mae problemau wedi gostwng fymryn ers y llynedd a gwelir yr un patrwm â niferoedd yr ymwelwyr. Mae ymweliadau rhith yn parhau i fod yn uchel ac mae lawrlwythiadau electronig yn parhau i fod yn gryf.			

DASLICC 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol	2018-19	Fesul 1,000 o'r boblgth	2017-18 Fesul 1,000 o'r boblgth
Cyfanswm nifer yr eitemau a dderbyniwyd	36,793	527	244
Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau (o DASLICC 14)	£114,093	£1,635	£1,641
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.			

nifer yr eitemau cyfryngau print a di-lyfr: 13,328
nifer yr eitemau o ffynonellau electronig wedi'u prynu gan yr awdurdod: 0
nifer yr eitemau o danysgrifiadau wedi'u prynu'n ganolog: Bolinda - 23,465 (fel y blynyddoedd blaenorol, ni chynhwysir e-gronau nac e-gomigs)

Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau i blant	£	32,856	
Ydy'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaeth Llyfrgell Ysgol?		Ydi	
Please indicated the amount included		£11,327	
Canran gwariant ar ddeunyddiau i blant		29%	% 31%
Sylw'r Awdurdod			

Mae'r gwasanaeth hwn yn ystyried hon fel lefel briodol o wariant ar stoc a brynir i blant a phobl ifanc, mae'n cynnwys gwasanaeth llyfrgell ysgolion sy'n darparu pecynnau sy'n seiliedig ar brosiect/cwricwlwm ar gyfer ysgolion cynradd a hefyd y fan llyfrgell ysgolion sy'n ymweld ag ysgolion cynradd drwy gydol y flwyddyn. Nid yw stoc ysgolion y llyfrgell yn cael ei ddiogelu ac mae ar gael i lyfrgelloedd eraill ei ddefnyddio.

DASLICC 10 Adnoddau yn Gymraeg	2018-19	Fesul 1,000 o'r boblgth	2017-18
Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg	£16,085		
Canran gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg	14%		% 12%
Gwariant am bob 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg			£ £330
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.			

Cyfanswm nifer benthyciadau eitemau Cymraeg	33,990	487
Sylw'r Awdurdod		
Mae gwariant ar ddeunyddiau iaith Gymraeg wedi cynyddu, sy'n adlewyrchiad o'r nifer o ddeunydd a gyhoeddwyd eleni. Prynir pob copi perthnasol o ddeunydd iaith Gymraeg yn lluosog. Mae'r gwasanaeth yn ystyried y ddarpariaeth hon yn briodol ar gyfer y galw am stoc iaith Gymraeg ar yr Ynys. Byddai'n rhaid dyblu lefelau prynu presennol i gyflawni'r gwariant fesul 1,000 o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, a byddai hyn yn arwain at stoc dros ben ac yn effeithio ar adnoddau eraill.		

DASLICC 11 Mynediad ar-lein	2018-19	Fesul 10,000 o'r boblgth	2017-18
A yw pob llyfrgell sefydlog a theithiol yn darparu o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd at y Rhyngwrwyd ac at gynnwys digidol ar y rhwydwaith?			
Os yw'n berthnasol, cofnodwch nifer y safleoedd sefydlog nad oes ganddynt fynediad i'r rhwydwaith	0		
Os yw'n berthnasol, cofnodwch nifer y llyfrgelloedd symudol nad oes ganddynt fynediad i'r rhwydwaith	1		

Nid oes gan y llyfrgell symudol ddyfais wedi'i gysegru ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r rhyngwrwyd ac at gynnwys digidol rhwydweithiol, fodd bynnag, mae'r rhyngwrwyd wedi'i alluogi ar ddyfeisiadau ein staff (drwy MiFi symudol) ac rydym yn rhoi cymorth i'n cwsmeriaid i gael mynediad at y rhyngwrwyd drwy ddefnyddio'r dyfeisiau hyn. Fodd bynnag, nid yw polisïau corfforaethol yn caniatáu defnydd preifat ar y dyfeisiau hyn. Mae bob llyfrgell statig yn darparu dyfeisiau sy'n rhoi mynediad i'r rhyngwrwyd ac i gynnwys digidol rhwydweithiol.

A yw'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn darparu mynediad diwifr i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain?	Ydi
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.	

Nifer y dyfeisiau sy'n rhoi mynediad i'r Rhyngwrwyd i'r cyhoedd sydd ar gael	69	9.89	Fesul 10,000 o'r boblgth	10
Mewn llyfrgelloedd sefydlog	69			
Mewn llyfrgelloedd teithiol	0			

Sylw'r Awdurdod

Mae pob llyfrgell statig yn darparu mynediad cyhoeddus i'r rhyngrwyd ac i gynnwys digidol rhwydweithiol. Mae gan y llyfrgell symudol fynediad at y rhyngrwyd ond nid oes ganddo ddyfais gyhoeddus. Bydd y Cynorthwydd Llyfrgell yn ymchwilio am wybodaeth i ddefnyddwyr ar eu rhan os oes angen.

Nifer yr oriau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfleusterau TGCh sydd â mynediad i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn	57,232		
Nifer yr oriau a gofnodwyd o ddefnyddio cyfleusterau TGCh gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn	32,452	57%	% 67%

Sylw'r Awdurdod

Cyfrifwyd y ffigyrau hyn ar sail flynyddol ar gyfer y 2 lyfrgell a fu gau yn ystod y cyfnod adrodd. Fe ail-ddosbarthwyd offer TG o amgylch y gwasanaeth, sydd wedi arwain at gapasiti ychwanegol mewn rhai adrannau, gan ddarparu gwell gwasanaeth i'r cwsmer ond drwy leihau'r ffigwr o % o;r amser sydd ar gael a ddefnyddir gan y cyhoedd.

DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau	2018-19	%	Fframwaith 5 %
Cyfanswm nifer y ceisiadau am eitemau unigol a wnaed yn ystod y flwyddyn	6,898		
Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais	5,310	77%	73%
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.			

Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais	6,317	92%	88%
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.			

Golyga benthycy a rhannu catalog rhwng llyfrgelloedd chwe awdurdod Gogledd Cymru bod heriau ychwanegol i feddiannu llyfrau ar gais y darlennydd o fewn amser penodol. Mae'r targed 7 diwrnod yn heriol o ran cludiant a logisteg.

Ers gweithredu'r System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan, mae archebion yn teithio ar draws Gogledd Cymru i gwrdd â galw cwsmeriaid a gall hyn fod yn heriol i'r rhwydwaith dosbarthu. I sicrhau cysondeb ag awdurdodau eraill yng Nghymru, ers 2017/18, mae awdurdodau Llyfrgelloedd Gogledd Cymru wedi cofnodi'r nifer o geisiadau llogi a foddhawyd yn y sir. Mae'r newid hwn yn yr adrodd wedi arwain at nifer gostyngol o geisiadau llogi yn cael eu cyfrif, ond mae'r nifer o geisiadau a foddheir o fewn 7 dydd calendr yn uchel (77%), sy'n gynydd o 17/18 ac yn uwch na tharged WPLS.

Ffigwr traws-sirol Môn, gan gynnwys ceisiadau a foddhawyd gan 6 awdurdod Gogledd Cymru yw 59.9% am 7 diwrnod ac 84.26% am 15 diwrnod.

DASLICC 13 Lefelau staffio a chymwysterau	2018-19	Fesul 10,000 o'r boblgth	2017-18
Cyfanswm nifer y staff (FTE)	18.1	2.59	2.8

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys gwybodaeth am staff sy'n cael eu rhannu):

Mae'r cyfanswm yn cynnwys staff a rennir yn yr uned lyfryddiaethol TalNET (22% o gyfanswm eu lefel staffio). Nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys swyddi gwag (swyddi sydd ar strwythur staffio'r gwasanaethau llyfrgell ond oedd yn wag ym Mawrth 2018)

Gwelodd 18/19 strwythur staffio newydd ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell. Mae lefelau staffio wedi gostwng ychydig yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac roedd gennym 3 swydd wag, roedd un ohonynt yn swydd broffesiynol am y flwyddyn gyfan. Fe eithriwyd y swyddi hyn o'r ffigyrau yn unol â'r arweiniad gan eu bod yn wag. Mae 1 o'r swyddi hyn bellach wedi ei llenwi (ond fymryn y tu allan i'r cyfnod adrodd) ac mae'r llall yn y broses o gael ei hysbysebu. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn parhau i fod o dan gyfanswm safon lefel staffio sy'n anochel am gael effaith ar y Gwasanaeth.

Cyfanswm yr FTE gan gynnwys y swyddi gweigion yw 19.95 sydd dal o dan y targed. Nid oedd cyflawni'r targed yn bosib fel rhan o'r broses drawsnewid.

Nifer y staff sydd â chymwysterau cydnabyddedig yn gysylltiedig â llyfrgelloedd (FTE) (gan gynnwys meysydd cytras)	3.9	0.56	0.6
--	-----	------	-----

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Nid yw'r ffigwr FTE 3.9 yn cynnwys y swydd wag ond mae'n cynnwys mannau cytras. Ein strwythur staffio os gaiff ei staffio'n llawn yw 4.9 sydd uwchben y targed. Rydym yn disgwyl cyrraedd y lefel hon yng nghyfnod adrodd 2019 os yw'r swydd broffesiynol wag yn cael ei llenwi.

Nifer y staff sydd â chymwysterau mewn meysydd cytras (FTE)	0.5	
Nifer y swyddi sy'n gofyn am gymwysterau llyfrgellyddiaeth	4.4	
Nifer y staff â chymwysterau llyfrgellyddiaeth mewn swyddi nad oes angen cymhwyster llyfrgellyddiaeth (FTE)	0.8	

Sylw'r Awdurdod:

Mae'r swyddi sy'n gofyn am gymhwyster llyfrgell yn cynnwys y swydd wag broffesiynol. Ein haelod o staff sydd â chymhwyster maes cytras yw ein Swyddog Dysgu Gydol Oes sydd â gradd addysgu. Mae gennym ddau aelod o staff sydd mewn swyddi nad oes gofyn am gymhwyster er bod ganddynt gymwysterau llyfrgellydd (nid ydynt yn cael eu hadrodd yma yn unol â'r arweiniad), nid yw'r unigolion hynny yn dymuno bod mewn swydd cymwys ar hyn o bryd.

A yw rheolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell yn meddu ar gymhwyster ffurfiol mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth?	Ydi	
Rhowch fanylion am y cymwysterau cyfredol sydd ganddo/ganddi:	Diploma Ôl-raddedig mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell, CILIP	
	Ydi	
Rhowch fanylion unrhyw hyfforddiant a wnaed		

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Ymhle y mae safle'r swydd hon yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol?	Adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Gwasanaeth : Addysg		
Beth yw swydd y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol i'r uchod)?	dd/b fel yr uchod		
Ymhle y mae swydd y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol (os yw'n wahanol i'r uchod)?	dd/b fel yr uchod		
Cyfanswm oriau gweithio staff yn ystod y flwyddyn	30,800		
Nifer oriau staff sydd wedi'u treulio mewn hyfforddiant neu ddatblygiad personol/proffesiynol	1,562		
% yr amser a dreuliwyd mewn hyfforddiant a datblygiad personol/proffesiynol	5.1%	2017-18	4.40%
Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.			

Cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn	3	2017-18	3
Cyfanswm nifer oriau gweithio gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn	90	2017-18	53
A yw'r achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwr gennych o ran y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol / NOS?	Amherthnasol		
Yn gryno, disgrifiwch yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i wirfoddolwyr.			
Oriau profiad gwaith yw'r oriau gwirfoddoli yr adroddir yma, gyda hyfforddiant a chefnogaeth wedi'u darparu ar sail unigol yn berthnasol i'r tasgau yr ymgysylltwyr â hwy.			

Sylw'r Awdurdod:

Hyd yn hyn, nid oes gan ein 2 Lyfrgell Cymunedol fodel gwirfoddoli ar waith, fodd bynnag, rydym yn gweithio mewn un maes i sefydlu elfennau o gefnogaeth i wirfoddolwyr sy'n ychwanegol i'r gwasanaeth llyfrgell craidd.

DASLICC 14 Gwariant gweithredol	2018-19	% y cyfanswm	2017-18	% y cyfanswm
Gwariant ar staff	£478,356	54%		64%
Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau	£114,093	13%		13%

Gwariant ar gynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau	£26,861	3%	3%
Cyfanswm costau gweithredol eraill	£272,605	31%	20%
Cyfanswm y gwariant refeniw	£891,915	100%	
Cyfanswm y gwariant refeniw am bob 1,000 o'r boblogaeth	£12,779		£12,728
Cyfanswm gwariant cyfalaf	£121,017		
Cyfanswm gwariant cyfalaf am bob 1,000 o'r boblogaeth	£1,734		£2,042
Sylw'r Awdurdod:			

Roedd y ffigwr staffio a adroddwyd yn nychweliad 17/18 yn anghywir. Adroddwyd y ffigwr staffio cyllidebol yn hytrach na'r ffigwr gwirioneddol. Y ffigwr cywir oedd £473,664, a fyddai wedi newid y ffigwr "costau gweithredol eraill" i £272,665. Golyga'r ffigyrau hyn bod y cyfansymiau % ar gyfer y ddwy flynedd yn gymharol.

DASLICC 15 Cost am bob ymweliad	2018-19	Cymhareb	2017-18
Cyfanswm y gwariant refeniw ar staff a deunyddiau	£592,449		
Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd	£74,610.00		Incwm £75,372.00
Cyfanswm nifer yr ymweliadau i safleoedd y llyfrgell yn ystod y flwyddyn	275,423		
Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefannau'r llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn	119,232	£1.31	Cost am bob ymweliad £1.50

Sylw'r Awdurdod:

DASLICC 16 Oriau agor	2018-19	Fesul 1,000 o'r boblgth	2017-18 Fesul 1,000 o'r boblgth
Cyfanswm oriau agor blynyddol yr holl fannau gwasanaeth	9,287	133	

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Mae perfformiad yn y maes hwn wedi lleihau oherwydd llyfrgelloedd yn cau yn 2018. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau i gwrdd â'r targed hwn; roedd parhau i gwrdd y targed hwn yn ffactor pwysig yn ein gwaith trawsnewid

Cyfanswm oriau agor blynyddol heb eu staffio'r holl fannau gwasanaeth	0	
---	---	--

Sylw'r Awdurdod:

		% y cyfanswm	2017-18 % y cyfanswm
Cyfanswm oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny neu mewn argyfwng oherwydd diffyg yn yr adeilad neu staff ddim ar gael	0		
Cyfanswm oriau agor a gynlluniwyd ar gyfer yr holl fannau gwasanaeth sefydlog	9,287	0.00%	0.00%
Cyfanswm nifer yr arosfannau llyfrgell deithiol ac achlysuron cludo i'r cartref a gollwyd o ganlyniad i ddiffyg yn y cerbyd neu staff ddim ar gael	0		
Cyfanswm arosfannau'r llyfrgell deithiol ac achlysuron cludo i'r cartref a drefnwyd	1,560	0.00%	1.00%

Sylw'r Awdurdod:

--	--	--	--

Awdurdod: **Cyngor Sir Ynys Môn**

1. Yr effaith y mae llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn, neu grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgrifiwch y defnydd a wnaethant o'r gwasanaeth, a'r gwahaniaeth y mae'r defnydd hwnnw wedi'i gael ar yr unigolyn neu'r grŵp dan sylw. Gellir cynnwys hyd at bedair astudiaeth achos (awgrymir 500 gair yr un).

Nodwch os oes caniatâd i Lywodraeth Cymru ailddefnyddio a / neu gyhoeddi'r astudiaethau achos neu beidio: Oes / Nac oes

a) **Cymhwysedd Digidol / Cymorth TG**

Mae ein llyfrgelloedd yn adrodd ar astudiaethau achos yn rheolaidd mewn perthynas â phwysigrwydd cymorth a chynhorthwy TG. Gall effaith y math hwn o waith fod yn arwyddocaol, gan estyn ar draws llawer o agendâu. Bydd staff yn helpu cwsmeriaid ond mae'r gallu i gyfeirio at gymorth un i un neu sesiynau TG yn ffactor pwysig o'n cymorth TG. Isod, rhestrir ychydig o'r datganiadau effaith a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

- Roedd gwraig yn dymuno atodi fideo a gymerwyd ar ei ffôn o waith oedd angen ei wneud ar ei Thŷ Cyngor. Fe roedd eisiau hysbysu'r adran Cynnal a Chadw Tai ond nid oedd yn gwybod sut i wneud hyn; roedd wedi bod yn gwingo adref tan y meddylodd am y llyfrgell a p'run ai y gallem ei helpu ai pheidio. Eisteddodd aelod o staff gyda hi ac egluro iddi beth i'w wneud. Dychwelodd ychydig o wythnosau wedyn i ddiolch i ni ac i ddweud bod yr atgyweiriad wedi ei wneud. Dywedodd ei fod yn hawdd pan ydych yn gwybod sut. Awgrymwyd efallai y byddai'n hoffi mynychu un o'n sesiynau TG, ac fe wnaeth; mae'n dweud bod y llyfrgell yn wych gan ei bod yn gallu cael cymorth a chynghor yn ogystal â chwrdd â phobl a chael sgwrs neis.
- Roedd dyn 60 oed yn defnyddio ei gyfrifiadur adref i gysylltu â theulu yn Ne Affrica dros e-bost, ond roedd wedi allgofnodi o'i e-bost ac nid oedd yn gallu ei gofio. Soniodd am hyn yn ffwrdd-â-hi tra'r oedd yn benthyg llyfrau. Cynhigiodd yr aelod o staff i'w helpu ac aethent ati i'r Cyfrifiaduron Mynediad Cyhoeddus. Roedd staff y llyfrgell yn gallu dangos iddo sut i adfer ei gyfrinair ac awgrymodd y byddai'n gallu dysgu sut i ddefnyddio Skype neu Negeseuon Cyflym i allu galw ei deulu dros fideo. Tanysgrifiodd am gymorth TG a dysgodd sut i ddefnyddio Skype; mae'n dal well ganddo e-bostio ond mae'n adrodd ei fod yn galw dros fideo ar achlysuron arbennig a'i fod yn braf cael gweld eu hwynebau.
- Cofrestrodd gwraig ar gwrs ysgrifennu creadigol a gynhaliwyd yn y llyfrgell. Roedd ei sgiliau TG yn wael iawn ac nid oedd wedi defnyddio prosesyddion geiriau o'r blaen. Fe anogwyd hi i ddefnyddio prosesyddion geiriau fel rhan o'r cwrs a dechreuodd raglen hunan-addysgu gan ddefnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell a help y staff llyfrgell pan fo angen ar gyfer problemau printio neu fformatio penillion. [Nid yw'n berchen ar gyfrifiadur ei hun hyd yma ond mae wedi dod yn dda gyda TG erbyn hyn. Dywedodd wrthym yn ddiweddar ei bod wedi cyflwyno darn o waith i gystadleuaeth a bydd ei gwaith creadigol yn cael ei gyhoeddi drwy'r coleg.

b) **Iechyd a Lles**

Mae'r astudiaeth achos hwn yn darlunio'r budd eglur a geir o'r cynllun Llyfrau Presgripsiwn. Un stori yw hon allan o lawer iawn y gallwn gofnodi. Mae gan bob llyfrgell stori debyg i'w dweud. Mae'r effaith yn glir ac yn gyson.

Mae *Mrs Williams* (ffugenw) yn wraig 45 oed a ddiolchodd i'r llyfrgell am eu help yn nhymor yr Hydref y llynedd. Gofynnwyd iddi a fyddai'n fodlon darparu datganiad dienw byr at ddefnydd y llyfrgell, ac roedd hi'n hapus i wneud hyn.

Rwyf eisoes wedi bod yn bryderus, ond roedd wedi mynd allan o reolaeth ac o ganlyniad rhoddodd fy noctor fi i ffwrdd o'm gwaith. Doeddwn i ddim eisiau cymryd meddyginiaeth ond roedd rhestr aros am therapi siarad. Dywedodd y doctor wrthyf am y cynllun Presgripsiwn Llyfrau a rhoddodd bresgripsiwn i mi am ambell i lyfr yr oedd yn credu y byddai'n gallu fy helpu. Cymerais anadl drom ac es i'r llyfrgell i gasglu'r llyfrau. Doeddwn heb fod yn y llyfrgell ers rhai blynnyddoedd ac roeddwn wedi synnu rhywsut gyda pha mor gyfeillgar yr oedd y lle. Fe aeth fy mhryder i ffwrdd ac rwyf bellach yn derbyn cymorth. Rwy'n ôl yn y gwaith. Cefais fy atgoffa drwy gamu'n ôl i'r llyfrgell o faint o fwynhad yr oeddwn yn ei gael o ddarllen ac o ymweld â'r llyfrgell pan oeddwn i'n blentyn. Nid wy'n gwybod pam wnes i roi'r gorau iddi, rwy'n credu mai bywyd aeth yn rhy brysur. Rwy'n gweld fy mod i'n mwynhau darllen eto, mae'n helpu i mi ymlacio ac i gysgu. Nid fy nhrafferthion iechyd yn unig y mae'r llyfr presgripsiwn yn ei helpu, fe ail-agorodd y drws i'r llyfrgell a'm hatgoffa o rywbeth yr oeddwn wedi ei golli. Mae fy ymweliadau i'r llyfrgell yn ffynhonnell o bleser mawr i mi bellach ac mae'n helpu bod y staff mor gyfeillgar a chynorthwyol. Maent hyd yn oed yn cadw llyfrau ar un ochr i mi. Mae'n gwneud i mi deimlo'n arbennig, er fy mod yn gwybod eu bod nhw'n gwneud yr un peth i bawb!

2. Ysgrifennwch mewn naratif sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru (awgrymir 500 - 1,000 gair).

Gwasanaeth Llyfrgell Môn: Cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru.

Dysgu – Mae gwasanaeth llyfrgell Môn yn cefnogi astudiaeth a dysgu anffurfiol yn ogystal â'r rheiny sy'n cwblhau cymwysterau ffurfiol. Mae gwasanaeth llyfrgell Môn yn cefnogi dysgu drwy bob cam mewn bywyd, o lyfrau i fabanod a rhannu rhigwm i sesiynau TG wedi eu targedu ar gyfer y genhedlaeth hŷn. Mae cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu allan i leoliad y llyfrgell, gan ddarparu cyfleoedd cyfeillgar hygyrch i ystod eang o ddeilliannau dysgu. Mae gweithio mewn partneriaeth yn agwedd gref o'r maes gwaith hwn.

Darllen a llythrennedd - Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn darparu mynediad at gyfoeth o lenyddiaeth, straeon a gwybodaeth sy'n ymgysylltu ac yn cynhyrfu. Rydym yn stocio llyfrau sydd wedi eu targedu at blant, pobl ifanc ac oedolion sydd â lefelau llythrennedd isel ac rydym yn gweithio â'n partneriaid i ddosbarthu sesiynau mewn sgiliau sylfaenol. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Môn yn hyrwyddo darllen am bleser i'n plant oed cynradd ac yn cefnogi athrawon gyda pheccynnau copïau lluosog a chasgliadau thema i gefnogi'r cwricwlwm. Mae grwpiau Gwrandor ar Stori yn boblogaidd iawn ac yn galluogi i breswylwyr sy'n ddall neu ond yn gallu gweld yn rhannol i ymgysylltu â llyfrau a chymdeithasu mewn amgylchedd cefnogol.

Lles cymunedol – Mae llyfrgelloedd yn ganolog i gymunedau Môn, gan ddarparu lle i grwpiau lleol gyfarfod, i ddarparu gwybodaeth gymunedol ac i ddarparu ystod eang o weithgareddau i bob oed. Mae llyfrgelloedd yn ofod niwtral yn y gymuned ac yn agored i bawb.

Sgiliau ac adfywiad economaidd - Mae ein llyfrgelloedd yn helpu i symbylu'r economi leol drwy ddarparu cyfleoedd am ddatblygiad sgiliau a gweithlu, darparu gwybodaeth a chynghor busnes a denu preswylwyr i'r trefi a'r pentrefi er mwyn gwneud defnydd o'r siopau a'r busnesau lleol. Mae gweithio partneriaeth yn golygu bod Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau yn enwedig ym maes cynhwysiad digidol a llenyddiaeth ddigidol. Mae llyfrgelloedd hefyd yn gweithredu fel hybiau ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid a mynediad i'r we drwy ein cyfrifiaduron a'n Wi-Fi.

Cynhwysiad digidol a chyfranogiad – Mae Llyfrgelloedd Môn yn cefnogi preswylwyr i fynd ar-lein drwy gael mynediad at y rhyngrwyd am ddim yn eu hadeiladau. Cynhelir cyrsiau TG a sesiynau un i un. Mae gan bob llyfrgell Gyfrifiaduron Mynediad Cyhoeddus, dyfeisiau symudol a chyfleusterau Wi-Fi.

Iechyd a Lles – Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn cyfrannu at yr agenda mewn llawer o ffyrdd – o weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i ddosbarthu Llyfrau ar Bresgripsiwn, gan gynnig casgliadau arbennig sydd wedi eu hanelu at bobl sy'n byw â dementia, grwpiau darllen therapiwtig a grwpiau darllen ar lafar i breswylwyr sy'n ddall neu ddim ond yn gweld yn rhannol. Rydym hefyd yn borth i wybodaeth iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth caeth i'r tŷ yn enghraifft graidd o'r buddion y gall unigolion eu cael drwy ddarllen a thrwy'r gwasanaeth llyfrgell cyffredinol. Mae partneriaid hefyd yn cyfrannu at yr agenda hwn drwy ddefnyddio ein cyfleusterau, er enghraifft, mae Ymwelwyr Iechyd yn defnyddio llawer o'n llyfrgelloedd i gynnal eu sesiynau pwyso a chyswllt wythnosol.

Hunaniaeth Ddiwylliannol - Mae gan lyfrgell Môn gasgliad hanes lleol eang, sy'n cysylltu lle ac iaith. Rydym hefyd yn gosod pwyslais cryf ar ein stoc iaith Gymraeg ac yn cynnal neu'n hwyluso llawer o grwpiau darllen iaith Gymraeg a dysgwyr Cymraeg. Mae digwyddiadau a gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn yn cysylltu â'r thema hon ac yn hyrwyddo adnoddau'r gwasanaeth llyfrgell.

Tlodi – Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn chwarae rôl allweddol yn helpu'r rhai sy'n dlawd neu sydd mewn perygl o fod yn dlawd, hyrwyddo llythrennedd, darparu mynediad am ddim i lyfrau ac adnoddau, mynediad am ddim i TG a'r we, a mynediad am ddim i gyrsiau sgiliau digidol.

3. Rhwch ddatganiad byr ynghylch cyfeiriad y gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol a'r cynlluniau ar ei gyfer (awgrymir tua 200 gair).

Yng nghyfnod adrodd 2018/19, gwelwyd gweithrediad penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022. Y newidiadau a roddwyd ar waith oedd:

- Cau Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch (Gorffennaf 2018), gan gynyddu darpariaeth symudol yn yr ardaloedd hyn.
- Datblygwyd model cydweithredol gyda Chanolfan Biwmares mewn perthynas â Llyfrgell Biwmares a Chyngor Cymuned Llanfaelog mewn perthynas â Llyfrgell Rhosneigr. Enillodd yr Awdurdod arbedion cyllidol drwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau hyn h.y. y Cyngor Cymuned mewn perthynas â Rhosneigr a Menter Gymdeithasol Canolfan Biwmares mewn perthynas â Biwmares wedi ymgymryd â'r adeiladau (prydles hir). Yn y ddwy sefyllfa, mae'r Awdurdod yn dargadw gwasanaeth llyfrgell statudol gyda chyfleusterau llawn sydd wedi'i gefnogi a'i staffio am 11 awr yr wythnos. Gobeithir y gellir sefydlu model gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol tu allan i'r oriau craidd statudol. Mae'r llyfrgelloedd hyn wedi eu cynnwys yn y dychweliad i lyfrgelloedd a gefnogir gan y gymuned.
- Diogelodd gyfeillion llyfrgell Cemaes arian i gadw llyfrgell Cemaes yn agored am flwyddyn. Darparwyd gwasanaeth llyfrgell am 11 awr yr wythnos.
- Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith.

Mae **Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022** wedi ei datblygu i ymateb i'r heriau a'r anghenion. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Môn ac yn gosod fframwaith ddosbarthu sydd â'r potensial i gwrdd ag anghenion y Safonau Llyfrgell a'n cwsmeriaid. Bydd y strategaeth hon yn siapio ein darpariaeth wrth i ni fynd yn ein blaenau.

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Ynys Môn

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ynys Môn i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Ynys Môn yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn erbyn hyn ac yn cyflawni un ohonynt yn rhannol.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Ynys Môn 7 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Gwelwyd rhai newidiadau yn lefelau perfformiad gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn yn 2018/19, wrth i'w broses drawsnewid gael ei chwblhau, gan ailffurfio'r seilwaith sy'n sail i'r gwasanaeth. Caewyd dau o'i bwyntiau gwasanaeth llyfrgell lleiaf, gan ei gwneud yn bosibl i ailddosbarthu'r staff a'r adnoddau, ac mae strwythur staffio newydd ar waith a ddylai sicrhau mwy o gapasiti ar ôl i'r broses recriwtio gael ei chwblhau. Serch hyn, mae'r staff wedi cyflawni arlwy estynedig o hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau yn 2017/18 er bod y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol eraill o ddefnydd llyfrgelloedd wedi parhau i ostwng. Rhagwelir gwelliannau wrth i'r gwaith marchnata, yr amserlen a'r llyfrgell symudol newydd ennill eu plwyf. O ganlyniad, dylai datganiad yr awdurdod ar gyfer 2019/20 ddarparu darlun cliriach o'r ffordd y mae rhoi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-22 ar waith, ynghyd â newidiadau diweddar i ganghennau, yn effeithio ar berfformiad o dan y fframwaith.

- Erbyn hyn, gall pob llyfrgell ddarparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ystod estynedig o wasanaethau iechyd a lles.
- Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi parhau i gynyddu, ond mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw yn dal ar y lefel isaf yng Nghymru.
- Mae Ynys Môn wedi ehangu ei raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn 2018/19, er gwaethaf cyfyngiadau o hyd ar gapasiti staff; dim ond mewn llyfrgelloedd penodol o hyd y gall y gwasanaeth ddarparu gweithgareddau / digwyddiadau i'r rhai â gofynion arbennig.
- Mae nifer yr ymwelwyr wedi parhau i leihau, a hefyd nifer y llyfrau a fenthycir, a hynny'n rhannol oherwydd llai o ddefnydd o'r llyfrgell deithiol; disgwylir gwelliannau wrth i'r ddarpariaeth deithiol newydd gael ei hymgorffori.
- Mae cyllidebau caffael wedi parhau ar yr un lefelau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda o ran gwariant ar lyfrau plant, a chefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Mae strwythur staffio newydd ar waith, ac mae'r broses o recriwtio i swyddi gwag yn mynd rhagddi. Yn y cyfamser, nid yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r naill darged staffio na'r llall, gyda phroblemau canlyniadol o ran capasiti.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2017/18, gyda gwariant y pen o'r boblogaeth uwchlaw'r lefel ganolrifol.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Ynys Môn bellach yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac un yn rhannol. Er bod Strategaeth i'r Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017-2022 ar waith, nid yw ar gael ar-lein yn hawdd i'r cyhoedd ac o ganlyniad, dim ond yn rhannol y cyflawnir HE12; unwaith y bydd y strategaeth ar gael drwy dudalennau gwe'r gwasanaeth llyfrgell caiff yr hawl hon ei chyflawni'n llawn. Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn meysydd eraill a gwmpesir gan yr hawliau, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau a chapasiti'r staff. Drwy weithio mewn partneriaeth â staff dysgu gydol oes, a chydweithwyr ac asiantaethau eraill, mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau'r ystod fwyaf bosibl o wasanaethau y gellir eu darparu, gyda ffocws penodol ar lesiant ar gyfer y gwaith hwn. Mae ymgynghori â chymunedau lleol a'r arolygon blaenorol o ddefnyddwyr wedi bwydo i mewn i'r cynlluniau i drawsnewid y gwasanaeth, a'r broses o ddatblygu strategaeth y gwasanaeth llyfrgell yn uniongyrchol.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Ynys Môn yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	x	Heb ei gyflawni
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	

DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
neu Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Bu rhai newidiadau yn y perfformiad o gymharu â 2017/18. Gyda'r cymorth llawn ar gyfer datblygiad unigol yn cael ei ddarparu ym mhob prif fan gwasanaeth mae DA 3 wedi'i gyflawni'n llawn bellach. Fodd bynnag, Yn 2018/19, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau ac adlewyrchu perfformiad gwasanaethau unigol, ni chafodd e-adnoddau a gaffaelwyd yn ganolog eu cynnwys yn yr adroddiad yn erbyn eitemau a gaffaelwyd ar gyfer DA 9 ar y cam asesu. Mae hyn wedi effeithio ar berfformiad Ynys Môn yn y maes hwn ac ni chyrhaeddir y safon o ran hyn mwyach.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid yw Ynys Môn wedi cwblhau ei arolygon o ddefnyddwyr eto, y mae'n bwriadu eu cynnal yn 2019/20. Er bod ffigur wedi'i nodi ar gyfer DA 5 b) isod, nid yw'r sampl a arolygwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn ystadegol gywir.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	dd/b		38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	99%	=4/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Ynys Môn ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Cynhwysiant digidol – datganiadau o effaith yn dangos gwerth a phwysigrwydd y cymorth TG a roddir drwy'r gwasanaeth llyfrgell; galluogi pobl leol i ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor, meithrin a chynnal cysylltiadau â theulu ar-lein, a gwella eu sgiliau TG a chael mynediad ehangach at gyfleoedd dysgu.
- Iechyd a Lles – tystiolaeth unigolion o bwysigrwydd mynediad at y cynllun presgripsiwn llyfrau, er mwyn cefnogi rhywun sydd â gorbryder difrifol. Roedd y llyfr a ragnodwyd nid yn unig wedi ei helpu gyda'i phroblemau iechyd, ond wedi ei chysylltu unwaith eto â'r llyfrgell, a darllen er mwynhad.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ynys Môn ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 5]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b		24%	82%	96%	67%
c) iechyd a lles	dd/b		33%	62%	94%	51%
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b		90%	97%	100%	97%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid						[Fframwaith 5]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b		81%	91%	98%	94%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b		93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b		65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	dd/b		93%	97%	99%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b		8.5	9.3	9.5	8.6
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	13	22/22	13	30	208	10
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	306	6/22	15	199	433	289
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth						
	222	15/22	91	295	689	188
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,946	12/22	2,596	3,969	7,170*	4,107
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	1,708	2/22	345	885	2,205	1,728
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	107	18/22	58	150	251	110
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²						
	976	5/22	95	602	1,424	877

DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	10	11/22	5	10	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	57%	2/22	14%	25%	63%	67%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	3	21/21	3	30	214	3
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	90	21/21	90	1,477	9,806	53
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth £12,779	9/22	£7,181	£12,145	£19,449	£12,728	
b) % ar staff	54%	17/22	47%	62%	78%	64%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	12/22	8%	13%	21%	13%
% ar offer ac adeiladau	3%	14/22	0.4%	4%	25%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	31%	5/22	0.3%	16%	37%	20%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£1,734	7/22	£0	£467	£8,829	£2,042
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£1.31	19/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.50
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.04%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw gwasanaeth Ynys Môn wedi cynnal ei arolygon o ddefnyddwyr eto, y nodir y cânt eu cynnal yn 2019/20. Gellir gweld effaith y newidiadau wedi'u cynllunio i seilwaith y gwasanaeth yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad unigol, yn sgil cau dau fan gwasanaeth sydd wedi ei gwneud yn bosibl i staff ac adnoddau gael eu hailddosbarthu; o ganlyniad cynigir yr ystod lawn o sesiynau sgiliau ym mhob llyfrgell bellach, ac mae DA 1 yn cael ei gyflawni'n llawn. Mae'r ymarfer ailstrwythuro hefyd wedi galluogi'r gwasanaeth i ymestyn ei ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gyda phob man gwasanaeth bellach yn cynnig gwasanaethau deall dementia. Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi parhau i gynyddu, ond mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw yn dal ar y lefel isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Erys y galw am gymorth anffurfiol i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, yn arbennig o uchel.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae newidiadau i seilwaith y gwasanaeth yn 2018/19 wedi arwain at ostyngiad bach yng nghanran yr aelwydydd sydd o fewn pellter hygyrch i fan gwasanaeth llyfrgell, ond parheir i gyflawni'r targed o ran hyn o dipyn. Mae Ynys Môn wedi ehangu ei raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn 2018/19, er gwaethaf cyfyngiadau o hyd ar gapasiti

staff; mae'r niferoedd sy'n mynychu wedi cynyddu o ganlyniad, ond maent yn dal islaw'r lefel ganolrifol. Mae'r ddarpariaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig hefyd wedi gwella, gyda darpariaeth wedi'i thargedu mewn saith allan o'r wyth prif fan gwasanaeth llyfrgell, ond mae'r gwasanaeth yn dal i fethu â chyrraedd y safon o ran hyn (DA 6). Mae nifer yr ymwelwyr wedi parhau i leihau, a hefyd nifer y llyfrau a fenthycir; priodolir hyn yn bennaf i leihad yn nifer yr ymweliadau gan y llyfrgell deithiol, ac mae'r gwasanaeth yn disgwyl gwrthdroi'r duedd hon yn 2019/20 pan fydd ei lyfrgell deithiol newydd, a'i hamserlen a'i hymgyrch farchnata yn ymsefydlu. Mae nifer y lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu ymhellach, tuedd a welir ledled Cymru ac mae aelodaeth llyfrgell hefyd wedi cynyddu, ond erys perfformiad y pen o'r boblogaeth o ran hyn yn isel iawn o hyd.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Parhaodd cyllideb deunyddiau Ynys Môn ar lefelau 2017/18, ond oherwydd newid i'r ffordd yr asesir eitemau a gaffaelwyd y pen o'r boblogaeth (DA 9) nid yw'r targed o ran hyn yn cael ei gyflawni mwyach. Erys gwariant ar adnoddau i blant yn gadarn o hyd, ac mae'r gwasanaeth wedi cynyddu ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, yn unol â'r galw lleol, gyda nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir yn parhau'n uchel. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi parhau ar yr un lefel, ac er bod y defnydd a wneir ohonynt wedi lleihau (i 57% o 67%), mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth uwch mewn rhai llyfrgelloedd yn sgil aildosbarthu cyfarpar o safleoedd sydd wedi cau, gyda'r defnydd yn dal ymhlith yr uchaf oll yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, gan nodi ffigurau ar gyfer ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn yr awdurdod.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith yn 2018/19, ond mae nifer o swyddi o fewn y strwythur hwn yn dal yn wag (gan gynnwys un swydd broffesiynol), ac fel y cyfryw mae Ynys Môn yn nodi gostyngiad bach mewn lefelau staffio cyffredinol ac nid yw'r naill darged staffio na'r llall yn cael eu cyflawni. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi ac y dylai'r swyddi gael eu llenwi yn 2019/20, ac yn rhagweld y dylai hyn alluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r targed ar gyfer nifer y staff proffesiynol, ond na fydd modd cyflawni'r gofyniad ar gyfer staffio cyffredinol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr, fel mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn ymwneud â lleoliadau profiad gwaith, gyda'r gwaith i ddatblygu model gwirfoddoli ar gyfer llyfrgelloedd cymunedol y gwasanaeth yn parhau.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2017/18, gyda gwariant y pen o'r boblogaeth uwchlaw'r lefel ganolrifol. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi lleihau, ar ôl cau dau fan gwasanaeth, ond mae'r gofynion o ran hyn yn parhau i gael eu bodloni, ac nid oedd unrhyw achosion o darfu ar wasanaethau heb eu cynllunio.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Ynys Môn yn parhau i nodi ei gefnogaeth i nifer o agendâu, gan gynnwys dysgu, llesiant cymunedol, sgiliau ac adfywio'r economi, a thlodi. Nodir bod partneriaethau yn nodwedd gref ar lawer o'r meysydd gwaith hyn, gyda llyfrgelloedd yn darparu'r lle a'r cyfleusterau ar

gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau. Byddai ychydig mwy o fyfyrion yn sylwadau ar y ffordd y mae datblygiadau a darpariaeth yn 2018/19 yn cefnogi'r meysydd hyn wedi bod yn briodol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Ynys Môn yn nodi y bydd y ffordd y darperir y gwasanaeth yn cael ei llywio gan Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017-2022, ond fel arall ni nodwyd unrhyw fentrau na datblygiadau penodol. Yn lle hynny, amlinellir y gwaith o dan y Strategaeth yn 2018/19, sef rhoi strwythur staffio newydd ar waith, cau dau fan gwasanaeth, a datblygu modelau cydweithio mewn dwy lyfrgell arall, gan weithio gyda chymunedau lleol. Byddai mwy o ffocws ar gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol yn cryfhau'r elfen hon o'r datganiad.

6 Casgliad

Gwelwyd rhai newidiadau yn lefelau perfformiad gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn yn 2018/19, wrth i'w broses drawsnewid gael ei chwblhau, gan ailffurfio'r seilwaith sy'n sail i'r gwasanaeth. Caewyd dau o'i bwyntiau gwasanaeth llyfrgell lleiaf, gan ei gwneud yn bosibl i ailddosbarthu'r staff a'r adnoddau, ac mae strwythur staffio newydd ar waith a ddylai sicrhau mwy o gapasiti ar ôl i'r broses recriwtio gael ei chwblhau. Serch hyn, mae'r staff wedi cyflawni arlwy estynedig o hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau yn 2017/18 er bod y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol eraill o ddefnydd llyfrgelloedd wedi parhau i ostwng. Rhagwelir gwelliannau wrth i'r gwaith marchnata, yr amserlen a'r llyfrgell symudol newydd ennill eu plwyf. O ganlyniad, dylai datganiad yr awdurdod ar gyfer 2019/20 ddarparu darlun cliriach o'r ffordd y mae rhoi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-22 ar waith, ynghyd â newidiadau diweddar i ganghennau, yn effeithio ar berfformiad o dan y fframwaith.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.